# Y DINESYDD

PAPUR CYMRAEG CAERDYDD
RHIFYN YR EISTEDDFOD

GORFFENNAF/AWST 1975

RHIF 22

# DYFODOL Y DINESYDD

Hen beth digon annifyr yw apelio am arian at gynnal yr achos hwn a'r achos arall. Mae cymaint o achosion da yn y Gymru sy ohoni a 'does 'na ddim ond hyn-a-hyn o arian yn y pwrs. Dyna pam nad ydym wedi blino llawer ar ddarllenwyr Y DINESYDD. Erbyn hyn, fodd bynnag, mae'r sefyllfa yn un argyfyngus.

Gellir gosod honno gerbron yn ddigon syml. Ar hyn o bryd y mae gennym tua £300 yn y coffrau - digon i dalu, gyda'r arian a geir am yr hysbysebiadau, am ryw dri rhifyn eto. Dylai fod gennym ddigon i dalu am chwech yn ychwanegol, gan ein bod yn ceisio cynhyrchu deg rhifyn y flwyddyn.

Gyda chostau cynhyrchu'r papur yn codi'n sylweddol o fis Medi ymlaen - codiad o tua 30 y cant - bydd yn rhaid inni gasglu, erbyn mis Mawrth nesaf, o leiaf tuag £800-£1,000. Oni cheir gwelliant cyflym felly bydd yn rhaid claddu'r DINESYDD, yn bur ddiseremoni.

Yr ydym yn apelio'n daer at y CYMDEITHASAU CYMRAEG i gyfrannu'n hael yn ystod yr Hydref hwn. A wnewch chi, bwyllgorau'r cymdeithasau hyn, gyfrannu tua £10 yr un yn ystod Medi neu Hydref 1975? Y mae o gylch 35 ohonoch yng nghyffiniau Caerdydd. Byddai £350 yn swm ardderchog ar gyfer y dyfodol.

Cawsom rai NODDWYR, ar y cychwyn, a ymrwymasant i gyfrannu £2 y flwyddyn dros gyfnod o 5 mlynedd. Y mae angen rhagor o lawer. Y bobl hyn, bendith arnynt, yw asgwrn-cefn y fenter oherwydd po fwyaf a gawn o gyfamodwyr mwyaf ein hyder wrth wynebu'r dyfodol. Pe caem tua 300 o gyfamodwyr ar gyfer y 5 mlynedd nesa dyna'n ni'n gwybod bod gennym o leiaf £600 y flwyddyn fel sylfaen sicr.

A beth amdanoch chi Y DARLLENWYR sy'n derbyn y papur yn rheolaidd heb gyfrannu yr un ddimai goch y delyn tuag ato? O'r nef y daeth y manna i'r hen genedl yn yr anialwch erstalwm. Nid oddi yno y daw'r DINESYDD.

Oni bai am yr arian a ddaeth inni trwy gynnal *Cymanfa Codi'r To* (gyda chymorth perfformwyr lleol) a threfnu cyngerdd gan *Gôr Meibion Ystradgynlais* byddai'r hwch wedi mynd trwy'r siop ers tro byd. Bellach, y mae'n anodd i drefnu cyfarfodydd tebyg gan y bydd yn rhaid cael pethau felly ar gyfer achosion eraill yn ystod y gaeaf sy'n dod.

Yr ydym wedi gwneud ceisiadau am gymorthdal at nifer o sefydliadau ond ar wahân i £150 a gawsom ar ddechrau'r fenter (ddwy flynedd yn ôl bellach) gan Gymdeithas Celfyddydau De-Ddwyrain Cymru derbyniad digon oeraidd a gafwyd.

Dyna'r darlun. Gresyn ei bod yn rhaid ei gyflwyno i'ch sylw o gwbl. Ond ei gyflwyno sy raid. Neu drengi.

## GOHIRIO

Gohiriwyd dyddiad cau ein cystadleuaeth ysgrifennu stori fer hyd Medi 1af, ar ol i nifer o'r dysgwyr ofyn am estyniad o ychydig wythnosau er mwyn cwblhau eu storiau.

Ewch ati rhag blaen felly, a danfonwch y storiau at y Golygydd, 44 Heol y Nant, Rhiwbeina erbyn Medi 1af. Cofiwch fod gwobrau da i'w hennill.




*John Albert Evans, un o ddosbarthwyr y papur hwn yn cael ennyd o seibiant.*

# CYFARFOD PWYSIG

Ar nos Fercher Gorffennaf 16 cyfarfu Mr Adams, Cyfarwyddwr Addysg De Morgannwg a thua 400 o rieni Ysgol Bryntaf. Roedd hwn yn gyfarfod hynod o bwysig a chymhellwyd y rhieni i dderbyn y penderfyniad i symud yr ysgol o'r Mynachdy i adeiladau Hen Ysgol Uwchradd y Merched Caerdydd yn y Parade.

Amlinellodd Mr Adams ei syniadau am ddyfodol y mudiad Addysg Gymraeg yn Ne Morgannwg. Cynigiodd gefnogi sefydlu ar unwaith gorff Cyd-ymgynghorol gyda Chymdeithas y Rhieni i ystyried yn fanwl gynlluniau ar gyfer dyfodol Addysg Gymraeg yn y sir. Roedd yn meddwl y byddai ei adran yn cynnig cynllun ar gyfer sefydlu rhagor o Ysgolion Cymraeg yng Nghaerdydd o fewn chwe mis.

Ym marn Mr Adams yr ateb i'r broblem fyddai sefydlu tair ysgol o fewn cylchoedd mwy cyfyng a fyddai'n golygu llai o deithio.

Pan symudir yr Ysgol Gynradd Gymraeg i 2, 3 neu 4 safle yna fe gredai y byddai'r syniad o ddefnyddio'r adeiladau yn y Parade fel Ysgol Uwchradd Gymraeg yn dderbyniol.

Ar y llaw arall teimlai y dylid edrych ar hyn hyd yn oed fel lleoliad dros dro, gan fod y lleihad yn y nifer o blant yn gyffredinol yn arwydd y dylem fod yn chwilio am adeiladau mwy cymwys.

Cytunodd y rhieni â'r nifer cynyddol o'r pwyllgor a oedd mewn gwirionedd yn derbyn y symudiad i'r Parade, ar yr amod fod ewyllys da amlwg y Cyfarwyddwr Addysg yn cael ei arddangos mewn gweithredoedd.

# MERCHED Y WAWR CANGEN CAERDYDD

Daeth y tymor presennol i ben Nos Fawrth, Mehefin 24ain, pan gynhaliwyd pasiant, *Hil a Hwyl y Castell* yng Nghastell Caerdydd. Yr oedd y Cyfarfod hwn yn agored i holl ganghennau'r Sir, a chafwyd cynrychiolaeth niferus o bob cangen. Yr oedd y noson dan ofal Mrs Myra Jenkins, y Llywydd Sirol.

Ysgrifennwyd y Pasiant gan Mrs Eleri Rogers, Llywydd y Gangen, a hi hefyd oedd y cyfarwyddwr cyffredinol. Yr oedd graen a sglein anghyffredin ar y cynhyrchiad hwn, ac mae Mrs Rogers i'w llongyfarch yn fawr ar ei menter. Gan mai Blwyddyn Ryngwladol y Merched yw hon, yr oedd thema'r Pasiant, sef merched Cymru ar hyd yr oesoedd, yn gymwys ac yn amserol. Yr oedd iddo gyweirnodau llon a lleddf, a'r cwbl yn ymdoddi i'w gilydd i ffurfio cyfanwaith gorffenedig o berfformiad a erys yn hir yn y cof.

Yr oedd y Côr Cerdd Dant o dan gyfarwyddyd Mrs Leusa Erfyl, a does dim rhyfedd felly fod y canu'n rhoi'r fath foddhad i'r gynulleidfa. Miss Eirwen Humphreys a fu'n cyfarwyddo'r Parti Cydadrodd, ac yr oedd ôl ei medr a'i dawn hithau hefyd ar y cynhyrchiad. Cymerwyd rhannau unigol gan Mrs Alys Watkin Powell, Mrs Rhiannon Evans, Mrs Eleri Rogers, Mrs Leusa Erfyl, Mrs Heulwen Jones a Mrs Myra Jenkins. Buwyd yn ffodus iawn i gael gwasanaeth Mona Meirion fel telynores.

Ychwanegwyd lliw ac asbri i'r perfformiad gan y Parti Tribannau a fu'n diddori'r dorf â'u penillion ffraeth a'u posau, ac un o uchafbwyntiau'r noson oedd yr arddangosfa o hen wisgoedd. Ymysg y rhain, gwelwyd gwisg briodas nain Mr Saunders Lewis yn cael ei harddangos gan ei gor-wyres, Miss Siwan Jones.

Ond nid gwledd i'r llygaid a'r clustiau yn unig oedd hon, a mawr yw ein dyled i Mrs Marian Wynne ac i aelodau'r Pwyllgor Bwyd am baratoi'r fath arlwy ar ein cyfer.

Yr oedd hon yn wir yn noson i'w chofio.

## Y DYFODOL

Yn ystod tymor 1975-76, bydd y Gangen yn parhau i gyfarfod yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy, ar y Nos Fawrth gyntaf ymhob mis, ag eithrio'r Cyfarfod Agoriadol a gynhelir Nos Fawrth, Medi'r 9fed. Bydd Mr Hywel Teifi Edwards yn dod i'n diddori ar y noson honno, ac estynnir croeso cynnes i aelodau hen a newydd i ymuno â ni. Dechreuir y cyfarfodydd am 7.30pm ac mae rhaglen ddiddorol eisoes wedi ei pharatoi. Yn ychwanegol at y rhaglen arferol, trefnwyd dosbarthiadau nos (drwy gyfrwng y Gymraeg) ar y grefft o 'Collage'. Cynhelir cyfres o chwech o gyfarfodydd, a bydd y cyfarfod cyntaf yn Ysgol Glan Y Nant ar Hydref 15fed am 7pm. Codir tâl o £1.50 am y cwrs (myfyrwyr a phensiynwyr-50 ceiniog). Y mae'r cwrs hwn yn agored i bawb.

Mudiad cymdeithasol yw Merched y Wawr, ac mae croeso ynddo i ferched o bob plaid ac enwad. Drwyddo, caiff merched Cymru lais annibynnol mewn materion o bob math.

Dyma swyddogion y Gangen am y flwyddyn 1975-76: Llywydd; Mrs Ray Evans, 7 Troed Y Rhiw, Rhiwbeina, Ffôn: 65461. Ysgrifennydd; Mrs Nia Vittle, 55 Heol Fidlas, Llanishen, Ffon: 752522. Trysorydd; Mrs Ann Rees, Afallon, 2 Ty Frŷ, Rumney, Ffôn: 791423.

## PWYLLGOR

Mrs Heulwen Jones, Mrs Mair Jones, Mrs Buddug Roberts, Mrs Eleri Rogers, Mrs Val Owen, Mrs E. Slim, Mrs Alwenna Thomas, Mrs Buddug Thomas, Mrs Nia Hall-Williams.


## O 'Steddfod Bro Dwyfor i Gymru benbaladr bydd HTV Cymru yn gyfrifol am y gwasanaethau a ganlyn o faes ein Prifwyl

**1** Dydd Sul, 3 Awst
Cyflwyniad dwyieithog o'r gwasanaeth crefyddol o'r Pafiliwn i'w ddangos ar rwydwaith Teledu Annibynnol.

**2** Prif seremoniau'r Eisteddfod
Y Coroni p'nawn dydd Mawrth
Y Cadeirio p'nawn dydd Iau
Croesawu'r Cymry Alltud p'nawn dydd Gwener

**3** Y Dydd a Report Wales
O faes yr Eisteddfod o nos Lun i nos Wener am 6pm a 6.20pm.

**4** Rhaglenni dwyieithog arbennig
am 6.30pm bob nos o nos Fawrth i nos Wener, ac am 5.20pm nos Sadwrn.

**5** Rhaglen fyw o lwyfan y Pafiliwn nos Lun
am 8pm yn cyflwyno cystadleuaeth Corau Plant.

**6** Penawdau Newyddion Y Dydd a 'Report Wales'
O faes yr Eisteddfod bob dydd am 1.20pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Ynglŷn ar steddfod a Bro Eisteddfod '75

**7** Dan Sylw dydd Mawrth am 10.30pm pan fydd y Parch William Morris yn sgwrsio gyda Gwyn Erfyl, ac yn son am ei gysylltiad hir a'r Brifwyl a'r cyfnod pan oedd yn Archdderwydd.

Hefyd, bore Iau - Ffilm arbennig i'w dangos yn y babell Lên - Ffilm ar wahoddiad y Pwyllgor Llên -seiliedig ar 'Pigau'r Ser' J.G. Williams.

HTV CYMRU WALES

MEWN LLIW O GRICIETH

# Canolfan yr Urdd

Cyfarchion yma. CERDYN POST

Canolfan yr Urdd
nos Lun,

Annwyl gyfeillion,
Wedi cael amser bendigedig yn yr wythadran eleni - nofio, chwaraeon, ymweld, mabolgampau, ffotograffau ag ati. Edrych ymlaen at y tymor nesaf - Gobeithiaf wneud crochenwaith, drama a choginio! Gobaith canŵio hefyd. Dewch yma ym mis Medi. Rhaid rhuthro - mynd i'r helfa drysor. Hwyl fawr,
Guto.

Cyfeiriad yma.

Stamp yma

Plant 11 – 15
ysgolion
Rhydfelen
a Llanhari.
CAERDYDD.

## CYFLWYNO'R URDD
## Medi 22-29

Wythnos yw hon i ddangos i aelodau ac arweinwyr yr Urdd yng Nghaerdydd y math o waith, adloniant a chyfle a geir o fewn yr Urdd.

Heb fod yn rhy ffurfiol, fe fydd arddangosfa wedi ei pharatoi gan Adran Gyhoeddusrwydd yr Urdd, o Aberystwyth, ac yn ychwanegol at hynny trefnir digwyddiadau arbennig gan weithwyr lleol.

Er enghraifft, fe ddechreir yr wythnos drwy wahodd criw ifanc Caerdydd (12-15 oed) i noson agored, dangos sleidiau, sgwrs a phaned o de mewn canolfan ieuenctid a fydd yn newydd i lawer ohonynt. Y noson ganlynol fe drefnir noson arbennig i ddysgwyr ifanc. Bydd yr wythnos yn gorffen ar nos Lun 29 Medi gyda arweinwyr adrannau'r Urdd mewn ysgolion yn dod i gyfarfod, a thrafod syniadau o sut i gynnal adran ysgol, gyda arddangosfa neu ddwy o weithgarwch i godi calon, -ac wrth gwrs paned o de.

Gwnewch nodyn o'r dyddiadau, a dewch draw i Ganolfan yr Urdd yn Heol Conwy, Treganna, (Canton).

Balwns yr Urdd.
Mae balwns yr Urdd yn mynd i fyny..fyny..fyny..fyny

## DOSBARTHIADAU CYMRAEG

Mae dosbarthiadau Cymraeg yn ail ddechrau yn y Ganolfan ar nos Fercher Medi 10 fed.

Os oes gennych ffrindiau sydd yn awyddus i ddysgu'r iaith, dyma eich cyfle i sibrwd yn eu clust.

Mae hefyd groeso cynnes i athrawon sy'n awyddus i helpu.

Bu raid penderfynu eleni cyfyngu y dosbarthiadau i bobl o dan 35 oed. (Mae'n ddrwg gennym am hyn Gwilym.)



Llawer mwy diddorol na'r hen stwff Saesneg 'na mae'ch plant yn ei ddarllen nawr!

**Cyfres newydd o NOFELAU * AROBRYN RHYNGWLADOL o**

***GWASG Y DREF WEN***

* **Brenin Catoren** £2.10, gan Jan Terlouw: ar gyfer oedran 13+
**Nos Galan** £2.50, gan Otfried Preussler: ar gyfer 11+
**Y Capten Bach** £2.10, gan Paul Biegel: ar gyfer 8+

- mewn Cymraeg gwych - ac yn rhad am y pris!


# DIGWYDDIAD DIGALON

Bu'r misoedd diwetha' yn gyfnod cythryblus i rieni ysgol Bryntaf a gweithiodd llawer iawn ohonynt yn galed er mwyn sicrhau dyfodol iach i addysg drwy gyfrwng y Gymraeg i'n plant.

Siomedig iawn ar y llaw arall oedd llawer o Gymry'r brifddinas, o glywed am yr ymateb dychrynllyd fu mewn cyfarfod o'r Gymdeithas Rhieni yn ddiweddar pan gododd John Albert Evans i siarad yn Gymraeg. Petai wedi siarad Rwsieg ni fyddai wedi cael ymateb mwy gwrthnysig.


Yn ôl pob hanes penderfynwyd ar ddechrau'r cyfarfod mai Saesneg fyddai iaith y trafod oherwydd presenoldeb cynifer o rai na allai ddeall yr iaith Gymraeg. O ddilyn y ddadl yma i'w therfyn, tywyll iawn yw dyfodol y Gymraeg ac ymddengys sefydlu ysgol Gymraeg, boed yn Mynachdy neu ar ben Mynydd Caerffili, braidd yn ddibwrpas.

Dagrau pethau oedd presenoldeb nifer o Gymry blaenllaw ein 'cenedl' yn y cyfarfod, ac yn eu plith unigolion sy'n byw bywyd bras yn sgil yr iaith Gymraeg ar y cyfryngau torfol ac yn debygol o fanteisio fwy na neb o sefydlu sianel Gymraeg. Derbyniwn y ffaith mai ychydig a wna'r mwyafrif ohonynt, gydag ambell i eithriad, er budd y gymdeithas ond ai gormod oedd disgwyl iddynt gefnogi gwr a fynnai siarad Cymraeg mewn cyfarfod o Gymdeithas Rhieni ysgol Gymraeg ym mhrifddinas Cymru?

Gohebydd trist.

# MAES Y PLANT

## POS CROESEIRIAU



**AR DRAWS**

1. *Fe ellwch ddisgwyl cael sawl un ar ben eich blwydd neu yn ystod y Nadolig. (6)*
5. *Ffrwyth! Mae rhai'n dweud i Adda fwyta hwn, ond dyw'r Beibl ddim yn dweud hynny! (4)*
7. *--- môr, --- Meirion. (3)*
9. *Dail brown, melyn, du, marw. (8)*
13. *Un sy'n hel ei fwyd o dŷ i dŷ. (8)*
15. *Brawd a chwaer a mam a ---. (3)*
17. *Yr adeg hon mewn amser. (4)*
19. *Mae hwn yn siarad Cymraeg, Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Rwsieg...... (6)*

**I LAWR**

1. *Nifer o blant yn canu gyda'i gilydd. (3)*
2. *Anifail baner Cymru! (5)*
3. *Nofio ----; i godi arian. (4)*
4. *Mae Max Boyce yn sôn am y llysiau hyn mewn cân. (2)*
6. *Ystafell sy'n llawn o ddwli? Dyna dric! (5)*
8. *Dyn yn twyllo ar lwyfan? (5)*
10. *Offrwm. (5)*
11. *Mae 13 ar draws yn cario hwn ar ei gefn ambell dro. (5)*
12. *Gellwch ddarllen hon mewn llyfr. (5)*
14. *Pwll ----; Cwm ----; coed derw! (4)*
16. *Mynd i'r ---- i dorri pwysi,*
*Pasio'r lafant, pasio'r lili. (Hen bennill) (3)*

**ATEBION AR DUDALEN 9.**

## TIPYN O HWYL

Fe wyddoch yn iawn am fabis! Ma nhw'n hoffi crio yn y nos a deffro pawb. Ac roedd un fam wedi cael hen ddigon ar ddeffro nos ar ôl nos a mynd i roi llaeth i'r babi sgrechlyd a medde hi wrth dad,

"Nawr, gwrando. Pwy sy pia'r babi yma?"

"Ni'n dau," medde dad. "Hanner yn hanner."

"O'r gore," medde mami. "Cofia di hynna. Ti pia hanner y babi."

Yn y nos, dyma'r babi'n dechrau crio ac medde mami,

"Dad codwch! Mae'r babi'n llefen, ni'n dau pia'r babi! Hanner yn hanner!"

"Hei, whare teg," medde dad. "Dy hanner di sy'n llefen!"

## RHAGOR O HWYL

*Dyn wedi meddwi, yn cerdded adre. Roedd hi'n dywyll a doedd dim golau yn y stryd. Doedd e ddim yn cerdded ar y palmant a doedd e ddim yn cerdded ar yr heol, chwaith. Un droed ar y palmant ac un droed ar y ffordd oedd hi, ac fe aeth felly am hanner milltir nes cwrdd â'r plisman. A dyma hwnnw'n gofyn iddo fe,*

*"Beth ych chi'n wneud ddyn? Un droed ar y palmant ac un droed ar y ffordd."*

*"Diolch byth ichi ddweud, syr," atebodd y dyn meddw. "A finne'n meddwl y mod i'n gloff!"*


Sain

RECORDIAU I'R PLANT:

'MIRI MAWR' (Sain 49E) gyda Caleb, Llew a Blodyn Tatws

'FUOCH CHI RIOED YN MORIO' (Sain 1005) Dafydd Iwan ac Edward.

'HOGIA NI' (Sain 1009) Hogia Llandegai yn canu'r ffefrynnau.

Hefyd - CASETIAU
TOCYNNAU RECORD — Yr anrheg benblwydd ddelfrydol.

COFIWCH AM EIN TOCYNNAU RECORD FEL ANRHEG

COFIWCH ALW YN EIN PABELL AR FAES Y STEDDFOD

Sain, Ffordd Llanllyfni, Penygroes, Gwynedd,



GORFFWYSWCH - YMLACIWCH



CERBYDAU WENALLT

*(Perchennog J.M. CROOKES)*

Cerbydau moethus gyda 20-51 o seddau i'w hurio

SWYDDFA DOCYNNAU

Ffôn Caerdydd 31174

Gwasanaeth ateb pedair awr ar hugain

WHITTLE ROAD, LECKWITH ESTATE, CAERDYDD.



*GRANT I'R DINESYDD? – DIM FFIARS O BERYG*

# DIWEDD Y NORMAN

**Wedi anghydfod diwydiannol hir a chas, o'r diwedd cael gwared â Norman Wilias golygydd y papur hwn. Gan fod cysylltiad agos wedi bod rhwng y Dinesydd a chyngor y Celfyddydau ers tro bellach llwyddwyd i alltudio Norman i swydd ranbarthol efo'r corff hwnnw ym Mangor.**

**Bu Norman yn olygydd y Dinesydd ers ei gychwyn ac er gwaetha pob ymdrech gan y pwyllgor rheoli glynodd fel gelen yn ei swydd. Cafodd gefnogaeth ei undeb U.C.A.W. (Undeb y Cymry ar Wasgar) am gyfnod ond daeth ei hamynedd hwythau i ben yn ddiweddar.**

**Ar lawer achlysur bu'r Dinesydd yn ffodus i beidio â dod o flaen llys enllib gan fod Norman yn llawer rhy barod i gamenwi'r diniwed. Fel llawer gormeswr o'i flaen cadwodd ei groen yn iach am gyfnod hir and gallwn gyd-lawenhau heddiw fod ei deyrnasiad wedi dod i ben.**

**Unig dristwch y symud i Fangor yw y bydd Norman yn llusgo Olwen ei wraig efo fo. Dyma golled fawr i Gaerdydd a rhaid cydymdeimlo â hi. Bu'n driw iawn iddo ers dydd eu priodas ac yn gefn iddo yn ei swydd. Lawer tro anfonodd Norman hi i'r drws i wynebu dinasyddion lloerig Caerdydd ar ôl i rifyn o'r Dinesydd weld golau dydd. Llwyddodd ei gwên barod a'i llais caredig i dawelu llawer ar dymer y rhai y gwnaeth Norman gam â hwy.**

**Hwyl i ti Olwen a diolch am helpu Norman.**

# Teyrnged Clwb Cymric



**Colled fawr i'r Clwb Cymric fydd ymadawiad Norman am y Gogledd. Chwareuodd droeon dros y Clwb - yn wir bob tro yr oeddem yn brin.**

**Cyrhaeddai'r Elai Newydd tua dau o'r gloch ar bnawn Sadwrn a gwên fawr ar ei wyneb a'i 'sgidiau'n sgleinio dan ei fraich. Doedd dim pall ar ei frwdfrydedd a byddai raid dioddef ei hanesion am Mountain Rangers yr holl ffordd i'r cae.**

**Pur anaml y llwyddai i gicio'r bêl ond doedd ots am hynny, roedd bob amser yn mwynhau y gêm. Daeth yn wybyddus i sawl reffari ac ysgrifenwyd ei enw droeon yn eu llyfrau bach.**

**Byddai wrth ei fodd yn rhoi ei enw fel Norman Hunter Williams a rhaid cyfaddef fod cryn dipyn o debygrwydd rhyngddo fo a'i eilun enwog.**

**Pan holwyd yn ddiweddar dywedodd nad oedd am werthu'i 'sgidiau eto beth bynnag a'i fod am wneud cais i ymuno â Nantlle Vale. Pe bai'r clwb hwnnw yn dal yng nghyfnod Orig Williams a Tarw Nefyn byddai gobaith iddo. Gan na ddaw amser felly fyth yn ôl gwell i ti ddal at Mountain Rangers, Norman bach.**

# NEWYDDION

## MI GANAF GÂN......

Wedi ymron ugain mlynedd o wasanaeth ffyddlon, mae Mr Cecil Rees, Heol Windsor, Penarth, wedi gorfod rhoi'r gorau i chwarae'r organ yn eglwys Dewi Sant oherwydd anhwylder. Mae Mr Rees yn gryn feistr ar yr offeryn hwn, ac fe fydd yn flin gan y gynulleidfa'i golli ar ôl cyfnod mor faith yn ei gwmni. Organ Willis sydd yn Newi Sant ac roedd Mr Rees bob amser yn dweud fod hon gyda'r organ orau yn y ddinas. Yn union ar ôl y cyfarfodydd diolchgarwch, fe fydd yn cael ei hatgyweirio ar gost o rai miloedd o bunnoedd. Gobeithio y bydd Mr Rees yn well erbyn iddi hi gael newydd wedd ac y bydd yn teimlo eto fel ei chwarae.

## O LANDEILO I LANDYBIE......

*Trist fydd gorfod ffarwelio ym Awst a theulu Cymraeg o'r Radyr sef Bob ac Ann Roberts, Llyr a Rhiannon. Maen nhw wedi penderfynu gadael dwndwr dinas a mynd i fyw yn y wlad, i dŷ ar y ffordd rhwng Llandeilo a Llandybie. Roedd y teulu i gyd yn amlwg yn y bywyd Cymraeg yn y ddinas ac fe fydd bwlch mawr ar eu hôl - a llawer yn eiddigeddu, rwy'n siŵr eu bod yn cael dychwelyd i fro'r awyr iach. Mae Bob yn beiriannydd trydanol gyda chwmni Igranig Electrics ac yn gorfod crwydro llawer yn ei waith, a bydd crwydro o Landeilo yr un mor hawdd â chrwydro o Radyr.*

## DEWCH AM DRO......

Fe unodd Adrannau Urdd Rhiwbeina a Gwaelod-y-garth rai dyddiau'n ôl i fynd am drip. Gofalwyr a 72 o blant yn mynd gyda'i gilydd i Borthceri a dringo'r grisiau aur o Borthceri i Borth-y-castell yn Y Barri. Wedyn, treulio tri chwarter awr yn y ffair cyn mynd â'r plant i gael ychydig o sglodion tatw. Mr a Mrs Bob Roberts yw arweinyddion Yr Urdd yn Radyr ac maent ar fin gadael y pentre i fynd i fyw i Landeilo. Ond drwy lwc, mae'r adran wedi bod yn ddigon ffodus i gael gwasanaeth Y Parchedig a Mrs Elin Tudur i redeg yr adran yn eu lle.


## Mudiad Ysgolion Meithrin

**Oherwyd cynnydd y gwaith mae angen Cymraes dda fel clerc/teipydd amser llawn yn swyddfa'r Mudiad a leolir yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy, Caerdydd.**

*Am fanylion pellach cysyllter â : Mrs Bethan Roberts (Ysgrifennydd Cyffredinol), Swyddfa Mudiad Ysgolion Meithrin, Canolfan yr Urdd, Heol Conwy, Caerdydd. Ffôn: Swyddfa 36113 - Cartre 842713.*

**YSGOL FEITHRIN CREIGIAU**

## ATHRAWES

**ar gyfer Medi 1975**

**Am ragor o fanylion ffoniwch Pentyrch 890702**
**Pentyrch 890622**

# DYFODOL ADDYSG GYNRADD GYMRAEG YNG NGHAERDYDD

gan
OWEN JOHN THOMAS

*Oherwydd prinder gofod bu raid cwtogi llawer ar yr erthygl hon. Gol.*

Yn 1967 roedd dwy ysgol Gymraeg yng Nghaerdydd, un yn Llandaf a'r llall yn Rhiwbeina. Yr oedd Ysgol Llandaf (y Fryntaf wreiddiol) yn orlawn, a'r ysgol yn Rhiwbeina'n tyfu'n gyflym. Y cam naturiol i'w gymryd ar y pryd oedd paratoi achos cryf ar gyfer sefydlu trydedd ysgol Gymraeg yn Nwyrain Caerdydd, ond, fel heddiw doedd y rhan fwyaf o'r rhieni ddim wedi meddwl am ehangu pellach. Ar yr un adeg roedd agwedd Awdurdod Caerdydd tuag at addysg Gymraeg yn anffafriol a dweud y lleiaf. Yn groes i ddymuniad llawer o rieni'r ysgolion fe unwyd y ddwy ysgol a'u symud i'w lleoliad presennol ym Mynachdy. Petai'r mwyafrif o'r rhieni ar y pryd wedi deall gwir bwrpas Undeb Rhieni Ysgolion Cymraeg, fydden nhw ddim wedi derbyn mor ddof eu gyrru i ffald ganolog ym Mynachdy. Mae polisi ehangu'r Mudiad Cenedlaethol hwn yn dyngedfennol bwysig i ddyfodol yr ysgolion Cymraeg. Mae'n rhaid i bwyllgorau rhieni ysgolion Cymraeg gofio'n wastad mai rhan o fudiad cenedlaethol ydynt gyda dyletswydd i gyflawni amcanion y mudiad.

Er gwaethaf llu o anhawsterau mae Bryntaf wedi tyfu ers iddi symud i Fynachdy o fod yn ysgol i 312 o blant i fod yn ysgol i 460. Ond unwaith eto mae dyfodol yr ysgol yn y fantol gyda thrigolion Mynachdy yn bygwth bodolaeth Bryntaf oherwydd eu gwrthwynebiad i fysiau'r ysgol ddod heibio'u tai. Nawr mae'r awdurdod yn awgrymu symud plant yr ysgol Gymraeg eto ym Mis Ionawr i hen Ysgol Uwchradd y Merched Caerdydd yn y 'Parade' yng nghalon y ddinas. Nid yw'r ysgol hon yn addas fel ysgol gynradd Gymraeg o gwbl. Mae lle yn yr ysgol i bron naw cant o blant a gallai Bryntaf gael ei gwthio yno a'r awdurdod yn anghofio am y syniad o greu dwy neu dair o ysgolion Cymraeg ar draws y ddinas. Byddai hyn yn cael effaith arafol andwyol ar ddatblygiad addysg Gymraeg yn y Ddinas.

Mae nifer o bobl wedi mynegi'r farn erbyn hyn y dylai Caerdydd gael dwy neu dair ysgol Gymraeg. Mae'r bobl yma'n cynnwys Cadeirydd y Pwyllgor Addysg, Mr Emyr Currie Jones, Y Cyfarwyddwr Addysg, Mr Fred Adams, Pwyllgor Rhieni Bryntaf, Cyngor Ysgolion Meithrin De Morgannwg, U.C.A.C. a Cyngor Talaith De Morgannwg o Blaid Cymru. Nawr pan ddaw cymaint o bobl a hyn i'r un casgliad fyddech chi ddim yn meddwl bod trafferth wedyn i gyflawni'r syniad. Yn ogystal a'r cytundeb anghyffredin hwn ar bwnc Cymreig, mae sbardunau eraill sy'n annog gweithgaredd yn y cyfeiriad hwn, sef, (a) twf yr ysgol - mae naw deg o blant yn dechrau ym Mis Medi, a (b) mae croeso pobl Mynachdy wedi oeri cryn dipyn yn ddiweddar. Hefyd, i wneud popeth yn haws, mae rhieni di-Gymraeg Caerdydd wedi gwneud eu cyfraniad hwythau drwy gynhyrchu llai o blant er mwyn sicrhau digon o le i sefydlu ysgolion Cymraeg yn y Ddinas! Dyna ni - amgylchiadau perffaith am gam ymlaen i ddod a'r iaith o fewn cyrraedd mwy a mwy o blant y Brifddinas. Pwy a ŵyr gymaint o hwb a roddid i fudiad ysgolion Cymraeg drwy ffurfio talgylchoedd llai i'r ysgolion Cymraeg.

Ond nid yw'r Cymry'n barod i fanteisio ar y sefyllfa. Pam?, rydych chi'n tybio. Wel, y ddadl yw, sut i gyflawni'r cam pwysig iawn yma. Mae llawer o le yn yr ysgolion Saesneg, digon i alluogi sefydlu o leiaf dair ysgol Gymraeg hunan weinyddol ar unwaith. Gan fod y mwyafrif o ysgolion Caerdydd wedi cael eu rhannu'n ddwy uned, h.y. Ysgol y babanod ac Ysgol Iau gydag adnoddau fel meysydd chwarae a neuaddau bwyta ar wahan, mae'n bosibl gyda'r niferoedd disgynedig i leoli'r plant di-Gymraeg i gyd, naill ai mewn ysgol y babanod neu mewn ysgol Iau, ac felly rhydd-hau'r ysgol iau neu fabanod sydd yn wag ar gyfer llunio Ysgol Gymraeg. Fel mae'n digwydd mae'r ysgolion Saesneg yma, sy'n cynnig cyfle i ni gael tair ysgol Gymraeg hunan-weinyddol, yn cynnig hefyd adeiladau modern, heolydd cyfleus i'r bysiau, lle i'r ysgol Gymraeg ehangu, a phopeth sy'n ddymunol. Pam yn y byd felly nad yw'r Cymry'n barod i fanteisio ar y sefyllfa?

Wel y drafferth nawr yw beth i wneud a'r plant sydd ym Mryntaf ar hyn o bryd. Fe wnaeth syniad gwreiddiol yr Awdurdod o chwalu'r ysgol drwy ei gwasgaru'n ddosbarthiad-au Cymraeg o fewn ysgolion Saesneg y Ddinas greu ofn y gair 'rhannu' ymhlith rhieni Bryntaf. Nid yw rhannu serch hynny o anghenraid yn golygu chwalu. Un ffordd o sefydlu'r ysgolion newydd sy'n cael ei gynnig, neu ei awgrymu gan rywun yw gadael i Bryntaf barhau heb dderbyn plant newydd, ac felly ymhen chwe mlynedd byddai'r ysgol yn dod i ben

Yr unig ffordd arall o sefydlu'r ysgolion newydd yw i rannu'r plant sydd ym Mryntaf ar hyn o bryd yn ddaearyddol. Fe ddeuai'r Fryntaf bresennol i ben ar unwaith ac fe sefydlid tair ysgol Gymraeg newydd i wasanaethu'r Ddinas. Felly y dewis yw rhannu ar sail oedran neu rhannu ar sail ddaearyddol Dewis hawdd yn wir.

Mae'r cwrs i'r mudiad yn amlwg. Mae'n rhaid rhannu Bryntaf mor fuan ag sy'n bosibl i ffurfio tair ysgol Gymraeg hunan-weinyddol. Mae'r adeiladau addas ar gael ac mae digon o blant i fwydo'r ysgolion newydd yma. Mae'r fantais i'r iaith a'r plant yn glir ac mae'n datrys problem lleoliad Mynachdy ac yn osgoi bwgan y 'Parade'. Beth amdani?

**Oriel**

**53 Heol Siarl Caerdydd**
**Teliffon: 0222 395548**

**Teitlau newydd**
**ar gael yn awr yn y SIOP LYFRAU**

R. Tudur Jones - Yr Undeb, £3.25
A. Lloyd Davies - Ewrop, £1.80
Mat Pritchard - Tipyn Bach o Fynd, £1.50
Abiah Roderick - Abiah, 80c
Dyfed Evans - Y Felin, 45c
E.D. Rowlands - Atgofion am Lanuwchllyn, 75c
Erfyl Roberts - Caneuon Erfyl, 45c
Cyfrol Deyrnged G.O. Roberts - Amddifad Gri, 95c
Irma Chilton - Byd y Blodau, 90c
Modelwaith Cerdyn - Hendre'r-ywydd Uchaf, 72c
Y Talwrn, 72c
Calendr Undeb Cymru Fydd, 50c
Plans and Prospects - poster, 75c

Mae catalog newydd 80 tudalen o RECORDIAU'R Gair LLAFAR i'w gael yn awr o ORIEL yn rhad ac am ddim. Anfonwch am eich copi.

# LLANILLTUD FAWR

Ar Fehefin 9fed yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr ysgol feithrin, sefydlwyd Cymdeithas swyddogol i ofalu am drefniadau'r ysgol. Roedd tua pump ar hugain o bobl yn bresennol, ac fe basiwyd yn unfrydol bod Mr John Edwards (John y Llath) yn cael ei benodi'n Llywydd. Mae John, sy'n hannu o Landdewi Brefi, wedi bod yn gwerthu llaeth yn y dref ers ugain mlynedd ond heb golli gair o'i famiaith. Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, bu'n chwarae rhan blaenllaw iawn yn yr ymdrech i ail-Gymreigio'r Fro, ac mae parch mawr iddo ymhlith Cymry'r dref. Cardiarall yw'r Cadeirydd newydd, Dr Howard Thomas. Mae Howard, sy'n enedigol o ymyl Llanbed, yn awr yn gweithio gyda'r Cyd-Bwyllgor Addysg yng Nghaerdydd. Gwr o Dafen, ger Llanelli, yw Mr Lyn Francis, a gafodd ei ethol yn Is-Gadeirydd. Mae Lyn yn ddarlithydd yn yr adran addysg yng Ngholeg Addysg Y Barri. Bydd Mr Dewi Lloyd Evans yn parhau gyda'r gwaith o fod yn ysgrifennydd, gyda Mrs Ann Beynon yn ei gynorthwyo. Y Trysorydd am y flwyddyn nesaf fydd Mrs Pat Jones. Aelodau eraill o'r pwyllgor canolog yw Mr John David a Mrs Elinor David. Bydd Elinor yn ein cynrychioli ar Bwyllgor Ysgolion Meithrin De Morgannwg, a John ar bwyllgor sy'n gofalu am fywyd cymdeithasol Llanilltud Fawr.

Yn ystod y flwyddyn gwynebwyd amryw o broblemau. Roedd yr adeilad mewn cyflwr gwael, ond gyda'r cymorth ariannol o Brazil trwy gysylltiad Mr Graham Prosser, gwnaethpwyd nifer o welliannau. Derbyniwyd £68 o Rio de Janeiro yn ystod y flwyddyn, ac fe wariwyd yr arian ar dannau trydan newydd ac adnewyddu'r system drydan yn yr adeilad. Roedd y pwyllgor yn ddiolchgar iawn hefyd am y rhodd o £30 gan Mr Roy Lewis. Trwy gyfraniadau unigol fel hyn ynghyd a'r arian a gasglwyd mewn nifer o weithgareddau, daeth yr adeilad i edrych yn llawer mwy llewyrchus ac fe brynwyd llawer o gyfarpar ar gyfer y plant.

Un o broblemau parhau ysgol feithrin Gymraeg mewn ardal mor Seisnigaidd a Llanilltud Fawr yw dod o hyd i athrawes a chynorthwywyr. Bu Mrs Anette Griffiths yn gyfrifol am yr ysgol am y ddau dymor cyntaf, ac yna cytunodd dwy o'r mamau, Mrs Janice Griffiths a Mrs Mary Rickard i ofalu am dymor yr haf. Yn ystod y flwyddyn buom yn ffodus iawn i gael cynorthwy gwirfoddol Mrs Beatrice Lloyd, Mrs Lilian Thomas, Mrs Jean Dean, Mrs Dilys Ford, Mrs Nan Jones a Mrs Jackie Wilson.

Gan nad yw Pwyllgor Addysg De Morgannwg yn barod i drefnu cludiant i blant Ysgol Gymraeg Y Bontfaen, mae hyn wedi achosi problem ariannol i rieni plant Llanilltud gan fod cost y tacsi sy'n cludo'r plant bob dydd yn dipyn mwy na chost y tocyn bws, sef yr arian a dderbynir oddi wrth yr awdurdod addysg. Gan y bydd y broblem yn gwaethygu ym mis Medi gyda chost bws-mini i'w dalu, gwnaethpwyd apel am gymorth ariannol yn Y Faner, a chafwyd ymateb ffafriol. Casglwyd £20 ychwanegol yn y Gymanfa Ganu a gynhaliwyd yn y Capel Wesle ar Fehefin 22ain. Gwaethpwyd cais hefyd am gymorth oddi wrth Gronfa Glyndwr.

Ym mis Medi, bydd pymtheg o blant yn cael eu derbyn i'r ysgol feithrin a phob un ohonynt yn mynd ymlaen i Ysgol Gymraeg Y Bontfaen. Daw'r mwyafrif helaeth o gartrefi di-Gymraeg.

## MAER Y DREF

Ar Ddydd Sul, Mehefin 22ain cynhaliwyd gwasanaeth dinesig yn Eglwys Sant Illtyd i sefydlu Mr J. Dewi Evans yn Faer y Dref. Cyfreithiwr yw Mr Evans, sy'n hannu o ardal Castell Nedd, a hyd y gwyddom, ef yw'r Cymro Cymraeg cyntaf i ddal y swydd. Dymunwn ei longyfarch yn galonog.

## CYRSIAU ADRAN EFRYDIAU ALLANOL

Bu cryn ddiddordeb yn ystod y flwyddyn yng Nghyrsiau Adran Efrydiau Allanol Coleg y Brifysgol Caerdydd. Bu Dewi Lloyd Evans yn cynnal dosbarthiadau Astudiaethau Cymraeg yn Llanilltud ac yn Y Wig. Nod y cyrsiau yma oedd rhoi cefndir rhagarweiniol i Gymru i rai nad oeddynt yn medru'r Gymraeg. Cafwyd trafodaethau hynod o fywiog ar bynciau fel hanes, daearyddiaeth, cefndir politicaidd Cymru, a rhai o'r problemau cyfoes megis yr iaith a'r diwylliant Cymraeg. Bu Mr Huw Thomas yn cynnal dosbarth ar brif nodweddion datblygiad cymdeithasau diwydiannol De Cymru, a bu Mr Harri Webb yn traddodi cyfres o ddarlithiau ar lenyddiaeth yr Eingl-Gymry.


**Gêm newydd**
**Gêm geiriau**
**Gêm Gymraeg**

c
a c
u n
t

CANT
AC UN

**Beth am ei chwarae?**

*101 awr o hwyl yn aros amdanoch*

**ar gael nawr**

oddi wrth siopau Cymraeg, neu yn syth oddi wrth:

Cynyrchiadau Caerffili (Chris Segar),
Hedd-Lys, Crescent Road, Caerffili. Tel: 883179

PRIS : £2.65


## Y CAPEL

Bu gwasanaethau Cymraeg misoedd Mai, Mehefin a Gorffennaf o dan ofalaeth y Parch Gareth Watts yn hynod o lwyddiannus, a daeth nifer o blant i'r Ysgol Sul. Hoffem ddiolch i Mrs Rachel Williams a Mrs Pat Richards am gymryd at y gwaith o ddysgu'r plant. Ar Fehefin 22ain trefnwyd Cymanfa Ganu o dan arweinyddiaeth Mr David J. Richards, organydd y capel a chorfeistr Cor Meibion Y Bontfaen. Cymerwyd rhan gan y Cor ac fe gafwyd anerchiad gan Lywydd y Gymanfa, Mr R. Alun Evans. Pleser mawr oedd gweld y capel yn orlawn a pheth braf i bwyllgor y capel oedd derbyn llythyr o ddiolch am y fraint o fod yn bresenol yn y gwasanaeth gan Faer y dref, Mr J. Dewi Evans, sy'n Gymro Cymraeg.

Ar y Sul cyntaf ym mis Medi, bydd gwasanaeth bedydd yn y Capel pan fedyddir Gwenllian, merch Dewi a Kathryn Lloyd Evans, Llio, merch Elgar a Mari Evans, a Gareth, bachgen Myrfyn a Rhiannon Williams.

## Y DYSGWYR

Bob nos Lun ers mis Medi, bu nifer o ddysgwyr yn cyfarfod yn y King's Head i ymarfer eu Cymraeg. Bu Mrs Elinor David a John y Llath wrthi'n ddiwyd gyda'r gwaith, ac fe aeth nifer o'r grwp ar gwrs un-dydd ym Mhen-y-bont ym mis Mehefin. Mae nifer o rieni plant yr ysgol feithrin yn awyddus i ddechrau dysgu Cymraeg ym mis Medi, a'r broblem fwyaf ydy cael athrawon i ofalu am y dosbarthiadau nos. Gan bod tua deg-ar-hugain eisiau dysgu y tymor nesaf, a bod nifer ohonynt ar lefelau dysgu gwahanol, bydd angen dau neu dri o ddosbarthiadau.

## EISTEDDFOD YR URDD

Mae nifer o Gymry Llanilltud wedi cynnig eu help i bwyllgor Eisteddfod Y Barri a'r Fro. Mae Mr Dewi Lloyd Evans yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith ac yn ysgrifennydd y pwyllgor Gwyddoniaeth. Ffurfiwyd pwyllgor lleol i ofalu am lety a chroeso, gyda Mrs Kathryn Evans yn Gadeirydd, Mrs Olwen Davies yn Ysgrifennydd a Mrs Ann Beynon yn Drysorydd. Gobeithir y bydd mwy o aelodau'r Gymdeithas yn cael y cyfle i ymuno a rhai o bwyllgorau'r Eisteddfod yn ystod y flwyddyn nesaf.

O, 'RWY'N GYMRO GOL-EU-EDIG!




SYTHWCH Y SEFYLLFA
Tâl Aelodaeth £7.00
Athrawon Blwyddyn Cyntaf £3.50

UCAC

UNDEB CENEDLAETHOL ATHRAWON CYMRU

11, Gordon Road, Caerdydd,

CF2 3AJ. Tel. 24692

# Blodau Naw Gwlad yn Ewrop

Buasai'r naturiaethwr enwog Desmond Parish byth yn meddwl newid ei hen gamera 25 oed am un newydd sbon. 'Fe brynais i'r camera yn ail-law chwarter canrif yn ôl pan ddaeth lluniau lliw i fod ac fe roddodd wasanaeth gwych i mi ers hynny, yn enwedig gyda'r holl waith manwl rwy'n gwneud wrth dynnu lluniau blodau', meddai.


Fe ellir barnu ansawdd y lluniau lliw mewn arddangosfa gan Desmond Parish a'i wraig Marjorie yn yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd o ddydd Iau, Gorffennaf 17 tan Awst 28. Rhan fechan o gasgliad enfawr y naturiaethwyr yw'r arddangosfa 'Blodau Ewrop', a detholiad byr o'r 17,000 o fathau o flodau gwahanol sy'n tyfu ym Mhrydain ac ar y Cyfandir. Mae'n cynnwys blodau o naw gwlad sef Cymru ('gwlad rhyfeddol am ei blodau'), Lloegr, Yr Alban, Iwerddon, Yr Eidal, Awstria, Y Swistir, Iwgoslafia a Cyprus.

## NEWID AELWYD

*Mae John a Marian Evans wedi penderfynu symud tŷ. Gadael Llys-faen a mynd i fyw i Radyr. Mae na stori fod John y gŵr yn bur ddeheuig hefo'i ddwylo a bod posibiliadau yn y tŷ newydd. Pe bai hwn yn bapur Saesneg, cawn fy nhemtio i awgrymu, "The house that Jack built......!"*

## GENI

Llongyfarchion i Peter a Sylvia Hunt, o The Sanctuary, Culverhouse Cross ar enedigaeth eu merch fach, Wendy. Mae'r ddau'n hannu o Gaerdydd, ac mae Mr Hunt yn gweithio gyda chwmni yswiriant.



DISASTER AT TYNEWYDD

Ken Llewellyn

"This incredible story of bravery and endurance in the face of almost insurmountable odds is recalled in Disaster At Tynewydd......"

*Derek Hooper, SOUTH WALES ECHO.*

cyhoeddiadau | ap dafydd

Os hoffech gael sgwrs yn Gymraeg wrth chwilio am ddarnau sbar i'ch car, ymwelwch â:

METELAU LLANDOW

(ar Ystad Fasnachol Llandow, ger Llanilltud Fawr) a gofynnwch am Mr John Pugh.

Mynwent o gerbydau a mynydd o sgrap!
RHIF FFÔN:
LLANILLTUD FAWR 2756

# Cyflwyno Siec

Ar Fehefin 27, 1974, lansiwyd ymgyrch yng Nghwm Rhymni i sicrhau cyfraniad i Gronfa Mil o Filoedd yr Eisteddfod Genedlaethol.

Mae'r traddodiad eisteddfodol yn yr ardal yn un hen ac roedd Eisteddfod Caerffili yn 1951 yn drobwynt yn hanes yr Wyl Genedlaethol. Y flwyddyn honno y defnyddiwyd y pafiliwn presennol am y tro cyntaf ac y sefydlwyd y rheol Gymraeg. Ac felly roedd pobl y Cwm yn awyddus iawn i gasglu swm teilwng.

Rhannwyd y Cwm yn unarddeg o ardaloedd a sicrhawyd casglwr ym mhob ardal i drefnu gweithgareddau ac i dderbyn cyfraniadau. Cafwyd ymateb ardderchog i'r llythyr apêl lleol gan nifer helaeth o gymdeithasau, cynghorau, diwydiannau, clybiau rygbi, corau meibion a sefydliadau eraill yn ogystal â channoedd o unigolion.

Ar Orffennaf 12 eleni, ychydig dros flwyddyn yn ddiweddarach, roedd y pwyllgor lleol yn gallu cyflwyno siec am £2,600 i'r Cyn-Archdderwydd Gwyndaf a Mr T.W. Thomas, Trysorydd yr Eisteddfod, mewn noson goffi arbennig a drefnwyd yng Nghaerffili. Mynegodd y Cynghorwr H.P. Richards, cadeirydd y pwyllgor lleol, ei ddiolch i bawb a gyfrannodd ac a weithiodd i sicrhau llwyddiant yr apêl. Fe'i galonogwyd yn arbennig gan ymdrechion a chydweithrediad nifer o Gymry di-Gymraeg y cylch, ac roedd yn sicr y byddai ymdrechion Cwm Rhymni yn symbyliad i ardaloedd eraill.

SIOP Y TRIBAN

- Yr unig siop ag ynddi restr lawn o Gardiau Cyfarch Cymraeg.
- Y detholiad gorau yng Nghaerdydd o lyfrau Cymraeg a llyfrau am Gymru.

11 Wyndham Arcade,
Caerdydd

Ffôn : 30042

Am fuddsoddi ? Dyma'ch cyfle!
BUDDSODDWCH YNG NGHYMRU

CYMDEITHAS TAI GWYNEDD

LLOG 9%
Gwerth eiddo'r Cymdeithas £120 000
Cartrefi Gwynedd yw Cadernid Gwynedd



Ysgrifennwch heddiw at
Dafydd Iwan Trefnydd Cymdeithas Tai Gwynedd
Ffordd Llanllyfni Penygroes Caernarfon
Penygroes 730

## NEWYDDION CWM RHYMNI



Yn ystod yr wythnosau diwethaf bu nifer o feibion sy'n dysgu Cymraeg yng nghylch Caerffili yn cynnal nosweithiau cymdeithasol, egniol drwy gyfrwng y Gymraeg yn y dref.

Yn awyddus i loywi eu Cymraeg wedi i dymor yr Wlpan a'r dosbarthiadau nos lleol ddod i ben, penderfynasant ffurfio tîm tennis bwrdd a badminton a dod ynghyd i ymarfer.

Prif ysgogydd y fenter yw Derek Harper, y gweithiwr brwd o Lanbradach a ddysgodd yr iaith yn llwyddiannus dros ben ei hunan. Dywedodd Derek wrth y Dinesydd ei fod yn awyddus i'w gyd-ddysgwyr gyfarfod â chylch eang o Gymry Cymraeg a meithrin digon o hyder i sgwrsio'n agored mewn sefyllfaoedd naturiol. Crêd y gellir cyflawni hyn drwy gyfrwng chwaraeon.

Dengys y brwdfrydedd bod Derek ar y trywydd cywir. Eisoes ymwelodd y tîm â Chanolfan yr Urdd, Caerdydd, gan fwynhau noson ddifyr yng nghwmni aelodau o ddosbarthiadau nos y Ganolfan. Yn dilyn hyn cafwyd noson gyffelyb yn ysgoldy capel Tonyfelin, Caerffili. Y gwrthwynebwyr y tro hwn oedd tîm o blith Cymry Cymraeg Caerffili.

Mae'r meibion nawr yn awyddus i gystadlu yn erbyn grwpiau neu gymdeithasau tebyg a fyddai â diddordeb mewn menter o'r fath.

Os oes unrhyw sefydliad sy'n awyddus i ymarfer corff ynghyd â iaith yna ymgysyllter a naill ai Derek Harper, 9 James St., Llanbradach neu Alun Charles, 4 Lon-y-Garwa, Caerffili (ffôn: 866074). Mae'r meibion yn fodlon i wahodd timau i Gaerffili neu ymweld a chanolfanau eraill o fis Medi ymlaen.

Un gair o rybudd ymlaen llaw. Mae'r safon chwarae'n aruchel. Go brin bod tîm cystal yn y Deheubarth!

### AELWYD CAERFFILI

Mae pwyllgor Aelwyd Caerffili, mewn cysylltiad a swyddogion capel Tonyfelin, wedi paratoi cynlluniau i wella'r cyfleusterau yn y festri, lle cynhelir yr Aelwyd, dros y flwyddyn nesaf. Mae'r prif welliannau yn cynnwys paentio'r ystafelloedd, moderneiddio'r system o oleuadau a gosod tanau trydan i wresogi'r neuadd. Rhagwelir y bydd angen tua £500 i dalu am y gwaith a gobeithir cynnal nifer o weithgareddau yn ystod y flwyddyn i godi'r swm. Yn y cyfamser bydd yr aelodau a'u rhieni yn torchi llewys mewn ymgais i sicrhau ymgyrch lwyddiannus.

### WLPAN

Mae paratoadau ar y gweill i gynnal Wlpan arall yng Nghaerffili gan ddechrau ym mis Medi. Bydd hwn yn gwrs deuddeg wythnos a gwahoddir ceisiadau mor fuan a phosibl i'r trefnydd, Alun Charles, 4 Lon-y-Garwa, Caerffili.

### ATEBION

**Ar draws**

*1. Cerdyn; 5. Afal; 7. Tra; 9. Crinddail; 13. Cardotwr; 15. Thad; 17. Nawr; 19. Ieithydd.*

**I lawr**

*1. Côr; 2. Draig; 3. Nawdd; 4. Ffa; 6. Lolfa; 8. Actor; 10. Aberth; 11. Pecyn; 12. Stori; 14. Deri; 16. Ardd*

GWESTY PLAS MAENAN
MAENAN, LLANRWST, DYFFRYN CONWY.
Gwesty Cymreig Cyntaf Cymru

- NOSON LAWEN draddodiadol gyda bwydydd Cymreig, medd, gwin cartref, difyrrwch gyda'r delyn etc.
- YSTAFELL FWYTA lle cewch fwydydd nodweddiadol a gwasanaeth gyda gwên.
- BARIAU cyhoeddus a golygfeydd godidog o Ddyffryn Conwy.
- POB LLOFT gyda ystafell ymolchi breifat, ffôn teledu offer gwneud te etc.
- CYMRAEG yw prif iaith Plas Maenan.
- TELERAU ISEL ar gyfer penwythnosau'r gaeaf.
- CYFARWYDDWYR Enid ac Alan Wyn Jones, gynt o Rhiwbeina.

Ffôn : DOLGARROG 232 (Côd - 049269)

Hard Times
WENALLT
WELSH NATION
GAIR RHYDD
Y DINESYDD
ROATH
CASA
TREODA
MEITHRIN
the AUSTRINGER
CARDIFF PEOPLE'S PAPER
Y Ddraig Goch
STAR

MAE GAN FWY-FWY O GYHOEDDIADAU WYTHNOSOL, MISOL A CHWARTEROL UN PETH YN GYFFREDINOL ......

...... YR ARGRAFFYDD

# colofn sbectol * SIAN

## ÊS

Rwyf wedi
bod yn
gwylio gormod
o denis
yn ddiweddar

## PRÊS

Wyddoch chi fod Mr Ashe wedi ennill £10,000 o wobr. Meddyliwch am ennill cymaint o arian. Buaswn yn gallu byw am oes ond imi beidio a mynd yn hollol wirion a phrynu bagiad o sglodion. Mae prisiau uchel y tatw wedi gorfodi nifer o siopau i gau, ac mae'n debyg y bydd llawer mwy ohonynt yn cael eu chips yn y dyfodol agos.

## GWRÊS

Mae rhieni sy'n mynnu addysg Gymraeg i'w plant yng Nghaerdydd yn sicr wedi aberthu llawer yn ystod y blynyddoedd. Maent wedi gwynebu cynlluniau eithaf brwnt, ond yn sicr y busnes diwethaf, pan y gorfodwyd yr ysgol i gau, oedd y Bryntaf. Rwyn sicr fod Mr Emyr Currie Jones yn sylweddoli fod pethau'n poethi.

## BRÊS

"Fe ddylech fod yn lwcus" meddai trigolion Canol Morgannwg, "Mae gobaith y cewch ysgolion Cymraeg eraill". Mae ganddynt bwynt wyddoch chi. Pwysleisiai Mr J. Brace, Cyfarwyddwr Addysg Morgannwg Ganol, yr angen i ehangu'r unedau dwyieithog o fewn ysgolion Saesneg...... "These units break down language barriers - avoid separatism in education and assist in creating a bilingual community." - a hepgor yr ysgolion Cymraeg mae'n debyg. Tanlinellwyd yr agwedd oddi uchod, tuag at y Gymraeg mewn hysbyseb am swydd mewn un Ysgol Gymraeg yr Awdurdod yn ddiweddar. R'oedd yn uniaith Saesneg. - "Candidates must be able to speak and write Welsh fluently" - wrth gwrs.

## AMÊS

Ymddangosodd hysbyseb Gymraeg ar glawr y papur mae 9 allan o 10 yn y de yn ei ddarllen ....

"CLWYCH Y BEIRDD" meddai....

"GYWCH" meddaf innau.

## NÊS

Mae son am y beirdd yn f'atgoffa fod y Steddfod yn nesau. Mae'n hen bryd i'r rheol Gymraeg gael ei ymestyn i holl weithgareddau'r Steddfod. Gall hyn sicrhau na fydd posteri uniaith Saesneg, fel yr un yn hysbysu'r "Celts - and others. Don't miss the Special Concert of Celtic Singing, Dancing, Spectacle. The Eisteddfod Pavilion....ag ati yn cael eu gyrru. Gyrrwyd y poster arbennig hwn i gymdeithas Gymraeg yng Nghaerdydd."

Mae'n debyg y bydd dau o'n dinasyddion dewraf - Hefin Wyn Tomos a Rhodri Morgan, yn treulio wythnos yr Eisteddfod y tu ol i'r bar, na dim y bar yna--- bariau carchar. Rhoddwyd 6 mis o garchar iddynt am weithredu yn erbyn y Swyddfa Bost fel rhan o ymgyrch Cymdeithas yr Iaith. Pob hwyl ichi hogia.

Hen Lyfrau yn eisiau

hen neu ail-law. Hefyd cylchgronau a phapurau. Gallwn alw i'w gweld.

Siop y Pethe
Aberystwyth
Dyfed

Ffôn 7120

# TRADDODIAD GWERIN BRO DWYFOR

*Os byddwch yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghricieth fore Mercher, beth am fynd i'r Babell Lên erbyn 10.30am 'Traddodiad Gwerin Bro Dwyfor, rhaglen ar lafar ac ar gân' - dyna deitl cyfarfod arbennig y gofynnwyd i Amgueddfa Werin Cymru ei drefnu. Paratowyd y rhaglen gan Robin Gwyndaf a dyma ragflas ohoni ar gyfer darllenwyr Y Dinesydd.*

Yn y rhaglen hon fe ganolbwyntir ar rai agweddau ar ddiwylliant gwerin Bro Dwyfor, yn arbennig yr agweddau traddodiadol hynny sydd wedi eu trosglwyddo ar lafar o genhedlaeth i genhedlaeth. Rhoddir sylw, er enghraifft, i ymateb dyn i'w amgylchfyd. Sut yr oedd dyn ar y tir yn ei gynnal ei hun? Pa ddylanwad a gafodd y môr o'i amgylch? Mae sôn hyd heddiw, er enghraifft, am 'datws coch a bach Morfa Bychan', oherwydd fod gwymon y môr yn rhoi lliw a blas arbennig iddyn nhw.

Cymdeithas hunangynhaliol, mwy neu lai, a fu'r gymdeithas ym Mro Dwyfor, gyda'r pwyslais ar y trigolion yn creu eu gwaith eu hunain. Felly gyda'u bwydydd, gwisgoedd a'u meddyginiaethau gwerin, megis arfer y wraig honno o Fynytho a welais yn ddiweddar gydag afal drwg ar fawd ei throed i wella briw.

## IAITH Y BRAIN

Cymdeithas o bobl a oedd yn byw hefyd yn agos iawn at natur. Gŵr felly ydoedd Obadiah Griffith o Bencaerau a fu'n gwrando cymaint ar glegar brain Bodwrdda, Meillionydd a Sarn nes iddo dybio ei fod yn deall eu hiaith. A dyma ran ohoni, fel y cofia Mrs Lora Roberts, Llanystumdwy, y rhib-i-di-res o eiriau hynod. Clywodd hi hwy gan ei thad, cymydog i Obadiah Griffith.

**Iaith Brain Bodwrdda:** Iwnial colej jeifis wefin membrans geting oiling Spanish and ddy shîffs and elings brôn ddat riwthes of ampton exolffins remesion licswm sterics slaiming steials geting darcnes brilded hiwmaniti byrthbes isborn and ddy shîffs and elings bron and iwnial colej.

**Iaith Brain Meillionydd:** Ymdetlan ymdetlan ymdetlyn amser amlont mewn beddrod a seiliwyd ac a ddaliwyd â sain utgyrn ffliwitsh.

Rhan o ddifyrrwch cymdeithas ydoedd y gymysgfa ryfedd hon, ac yma eto yr oedd pwyslais y trigolion ar greu eu difyrrwch eu hunain, megis storïau, chwaraeon, rhigymau, posau a hen gerddi llafar gwlad. Y mae llawer o'r cerddi hyn yn fynegiant o ymateb dyn i hwyl a llawenydd bywyd. Yn yr un modd ceir cerddi sy'n fynegiant o ymateb dyn i'w ofid a'i hiraeth.

Agwedd amlwg arall ar draddodiad gwerin bro yw'r modd y mae dyn wedi ymateb i ofn a dirgelwch bywyd, gan roi ei gred yn aml mewn bodau a gweledigaethau goruwchnaturiol, megis gwrachod, dewiniaid ysbrydion a rhagarwyddion angau.

Nid oes modd deall traddodiad arbennig bro heb wybod rhyw gymaint hefyd am gof gwerin y bobl a fu'n byw yn y fro honno o gyfnod cynnar iawn. Cof, er enghraifft, am ddigwyddiadau rhyfeddol neu am arwyr yr hen oesoedd, megis Hywel y Fwyall, y dywed traddodiad iddo gael ei gladdu ger Castell Cricieth a bod ei fwyall fawr yn codi o'r ddaear bob tro y gosodid bwyd o'i blaen ar gyfer y tlodion. Dyna hefyd gymeriadau hynod, megis Dic Aberdaron (1780-1843). Yn ogystal â'i allu rhyfeddol i ddysgu ieithoedd, fe gredai pobl fod ganddo'r gallu i godi cythreuliaid, yn aml yn rhith llygod mawr neu foch bach.

Yn y llun a gyhoeddwyd mewn cofiant iddo gan H. Humphreys, Caernarfon (1844), fe welir rhai o hoff bethau Dic: y gath, neu'r 'mew' fel y galwai hi; ei delyn; ei ysbieinddrych o'i waith ef ei hun, a'i gorn hwrdd. Yr oedd i hwn dri phwrpas: i'w chwythu i ganu, i yfed dŵr ohono ac i gadw ei arian.



*DIC ABERDARON*

Ni fyddai unrhyw ystyriaeth o draddodiad gwerin Bro Bwyfor yn gyflawn heb roi sylw hefyd i'r iaith Gymraeg a fu'n brif gyfrwng trosglwyddo'r traddodiad hwn hyd at ein dyddiau ni. Personoliaeth y trigolion, natur eu gwaith, amgylchiadau byw, daearyddiaeth y fro - cyfrannodd y cyfan tuag at roi lliw a rhin arbennig i'r iaith. Dyna, er enghraifft, ddywediadau bachog megis 'Mynd i'r Rhiw i chwilio am Nefyn', neu'r defnydd o hen eiriau Cymraeg, megis 'mwrw' gan bysgotwyr i gyfrif pennog fesul tri.

* * *

Yn ystod y rhaglen fe wneir defnydd o recordiadau tâp o archif yr yr Amgueddfa Werin a bydd parti o blant o Ysgol Gynradd Cricieth, wedi'u hyfforddi gan Mrs Buddug Lloyd Roberts, yn cyflwyno rhai o benillion telyn a chaneuon gwerin y fro, amryw ohonyn nhw wedi eu casglu gan Y Dr J. Lloyd Williams.


*Amgueddfa Genedlaethol Cymru*

## *Amgueddfa Werin Cymru*

Castell Sain Ffagan a'i erddi
Adeiladau o bob rhan o Gymru wedi eu hailgyfodi
Crefftwyr yn ymarfer eu crefftau traddodiadol
Oriel Ddiwylliant Materol yn dangos agweddau ar fywyd a chymdeithas yng Nghymru
Oriel Amaethyddiaeth Newydd
Arddangosfeydd arbennig o bryd i'w gilydd

*Datblygiadau Newydd*

Oriel Gerbydau Amaethyddol
Oriel Wisgoedd
"Melin Pompren" - melin flawd o Gross Inn, Dyfed.

*Cyfleusterau*

Maes parcio helaeth Ystafell fwyta
Llawlyfr (10c), Llyfrynnau arbennig, Llyfrau a Chardiau ar werth
Bws Rhif 32 o Orsaf Fysiau Cyffredinol Caerdydd ar yr awr

*Ar Agor*

Dyddiau'r Wythnos 10 - 5 Hydref - Mawrth
10 - 6 Ebrill, Mai, Mehefin, Medi
10 - 7 Gorffennaf, Awst ar gwyliau cyhoeddus
Suliau 2.30 - 5 Hydref - Mawrth
2.30 - 7 Ebrill - Medi
Ar gau Noswyl Nadolig Dydd Nadolig Dygwyl Steffan a Dydd Calan

*Mynediad*

Oedolion 10c
Plant dan 16 oed 5c
Pensiynwyr am ddim
Mynediad am ddim hefyd i bartion ysgol a drefnwyd ymlaen llaw a than oruchwyliaeth

Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd CF5 6XB
Ffôn Caerdydd (0222) 561357

# CHWARAEON

## DAVID ROBERTS
gan
## Llwyn Llwyd

Mae cyfreithwyr, neu dwrneiod yn iaith y North, wedi bod yn fechgyn ciwt a chyflym o'r cychwyn cynta yn ôl pob hanes, ond fe geir yn eu rhengoedd hwythau hyd yn oed rai sydd dipyn cyflymach na'i gilydd.

Y cyflymaf oll yw David Roberts, Cymro Cymraeg o'r gogledd sy'n gweithio gyda chwmni o gyfreithwyr yn y ddinas ma, ac eleni fe yw'r bachgen cyflyma ar ddwy droed ym Mhrydain. Mae 10.4 eiliad dros gan metr yn golygu rhedeg chwimwth ac yn ddigon i rywun anghyfarwydd deimlo drafft cryfach na'r cyffredin ym môn ei wallt. Ddechrau mis Gorffennaf roedd David Roberts wedi cyrraedd y nod o 10.4 eiliad ac fe olygai hynny ar bapur ei fod .2 eiliad yn gyflymach nag unrhyw redwr arall ym Mhrydain.

Ar ei ail flwyddyn yn Ysgol Uwchradd Grove Park Wrecsam y dechreuodd gael blas ar redeg gan ennill llawryfon yng nghystadlaethau plant ysgol Cymru. Un o'i wrthwynebwyr cynnar oedd J.J. Williams, y rhedwr cyflyma mewn sgidiau rygbi. O Wrecsam aeth i Gaergrawnt lle'r enillodd ei "blue" mewn mabolgampau.

Dewisodd ddod i Gaerdydd er mwyn gallu manteisio ar yr hyfforddiant a'r cyfleusterau ymarfer gorau, a Chlwb Athletau Caerdydd gyda llaw sydd wedi ennill Pencampwriaeth Prydain am y tri thymor diwethaf yn olynol.

Dyw dawn gynhenid ar ei phen ei hun ddim yn ddigon i gyrraedd a chynnal safon ryngwladol; rhaid wrth hyfforddiant trwyadl, dyfalbarhad, disgyblaeth ar hyd y flwyddyn ynghyd â'r awydd i wella a llwyddo. Busnes cymhleth a dweud y lleia yw paratoi ar gyfer y rasys byrion gan fod cychwyn sydyn o'r blociau ynghyd â thechneg ac arddull yn golygu'r gwahaniaeth rhwng ennill a cholli.

Mae'n amlwg fod David Roberts, fel sy'n gweddu i dwrnai, yn ystyried yn fanwl a gofalus bob rhyw agwedd o'i redeg. "Fe fydda i'n ceisio cadw popeth o'm meddwl wrth redeg", meddai, "ond mae'n syndod cymaint o bethe all wibio drwy feddwl dyn mewn deg eiliad. Canolbwyntio ar y rhedeg yw'r nod gan anwybyddu cyd-redwyr yn ogystal â'r tâp terfyn nes ei dorri fodfedd neu ddwy o flaen y lleill."

Erbyn hyn mae wedi cynrychioli Prydain wyth o weithiau yn y ras gan metr, a thrannoeth iddo gyrraedd y nod o 10.4 eiliad yr oedd mewn dim o dro yn sôn am gyrraedd 10.3 cyn diwedd y tymor.

## BERNARD Y MEISTR

Enillydd Gwobr Y Capten mewn cystadleuaeth a gynhelir yn flynyddol gan Glwb Golff Yr Eglwys Newydd oedd Mr Bernard Evans, 26 Heol Don. Aeth Mr Evans o amgylch y cwrs mewn 63 o ergydion, gan guro'r nesaf ato o dair ergyd. Deallwn oddi wrth ein Gohebydd Chwaraeon fod hon wedi bod yn dipyn o gamp, yn enwedig gan i'r bêl fynd ar goll droeon ym marf y buddugwr.

Fel canlyniad i'w fuddugoliaeth, gostyngwyd handicap Mr Evans i ddeunaw. 'Ond hynny, nid yw'n ofid' iddo, oherwydd un o'r gwobrau a enillodd oedd decanter brandi hardd o wydr cain, ynghŷd a dau wydryn. Pan ymwelodd ein Gohebydd Arbennig ag ef yn ei lain-ardd, cymerodd Mr Evans seibiant o ddyfrhau ei wely moron i esbonio bod ceinder y wobr yn ychwanegu llawer at flas y gwirod. Ychwanegodd, "Fy mhrif bwrpas mewn tyfu moron yw 'r gred sydd gennyf y bydd eu bwyta yn fy ngalluogi i weld yn ddigon da i chwarae golff yn y tywyllwch". Ond gwadodd bod unryw wirionedd yn y si ei fod yn bwriadu eillio'i farf yn lân er mwyn gostwng ei handicap ymhellach. "Mae rheswm i bopeth!" mwmiodd yn ddig yn ei fwstash, cyn ail-ddechrau ar y gwaith o ddyfrhau'r moron.

# Clwb Cymric

### FELINFACH 3 CYMRIC 5

Wedi derbyn gwahoddiad a her Adfer ymgasglodd unarddeg o ddineswyr dewr ynghŷd fore Sadwrn y 12fed a'i chychwyn hi am gaerau Ceredigion. Pentre bychan Dihewyd oedd y nôd a thîm peldroed y Felinfach oedd y gelyn.

Gan fod y gwaed eisoes yn poethi, digon derbynniol oedd y glaw oer a ddisgynai drwy gydol y daith. Fodd bynnag, er gwaetha'r hin a gyrru afresymol Geraint Huws llwyddwyd i gyrraedd Dihewyd a hanner awr yn sbâr cyn y gêm - a dyna oedd ein camgymeriad cynta.

Tra'n ymestyn ein coesau ar ôl y daith daeth Emyr Llew i'r golwg a phâr o hen esgidiau mawrion o dan ei fraich. Bu bron i hanner ein tîm ddiflannu yn y fan a'r lle pan welwyd y gwaed oedd wedi cronni ar wadnau'r arfau peryglus hyn. Wn i ddim faint ohonom a dderbynniodd eglurhad y Llew mai paent oedd ar ei 'sgidiau.

Ond, a'n nerfau ond yn araf dawelu, pwy ddaeth i'r golwg ond Phil Bach (Ac Eraill gynt). Cyn dweud 'Swmai' bron plygodd i lawr a thorchodd goes ei drowsus i fyny at ei glun i ddangos craith bron ddwy droedfedd o hyd. Fe'i cafodd, medda fo, a chryndod yn ei lais, gan un o gewri'r tîm lleol tra'n chwarae yn eu herbyn ryw fis ynghynt.

Ar chwibaniad y reffarî - amhleidiol wrth gwrs ond yn byw yn Felinfach - rhuthrasom at ein gwrthwynebwyr. Am y ddau funud cyntaf chwareuem fel Real Madrid ar eu gorau ond erbyn y trydydd munud daeth blinder ac anffitrwydd rhai aelodau'r tîm yn amlwg a daeth Felinfach fwyfwy i'r gêm.

Ar y lein roedd tyrfa leisiol ac yn ei plith y brawd Emyr Llew a'r esgidiau gwaedlyd o dan ei fraich o hyd. Roedd gweld hyn yn ddigon o sbardun i Dafydd Ifans i sgorio'r gôl gyntaf a honno'n gic gyfrwys i gornel y rhwyd.

1-0 felly i dîm Cymric a Geraint Huws yn clochdar yn uchel dros y maes. Ymosod fu'r hanes am y munudau nesaf a Bom yn gôl Felinfach yn arbed cynnig ar ôl cynnig.

Roedd y chwarae erbyn hyn yn weddol gyfartal a doedd hi fawr o syndod i neb pan sgoriodd Terry Jones i'r Felinfach ychydig cyn hanner amser.

Yn ystod yr egwyl caed sgwrs sydyn a phenderfynwyd gofyn yn garedig i Bryn Jôs (cyfrifydd efo'r Bwrdd Glo yn Llanishen) i geisio cyfrannu ychydig bach mwy i'r gêm.

Ail-ddechruodd y gêm a'r chwarae o hyd yn llawn bywyd er ei fod hefyd braidd yn flêr. Roedd yr enwog Deinamo Davies yn brysur yng nghanol y cae i'r Felinfach a'i brofiad helaeth yn gymorth mawr i'w dîm.

Deffrowyd pawb, fodd bynnag, gan y gôl nesa, gôl orau'r gêm yn ddiau. Sgoriwyd hi gan droed chwith raenus Moi Parri, sef fi, ond go brin y cafodd Cymric fawr o amser i orfoledd gan i Terry Jones sgorio ei ail gôl i'r Felinfach a dod a'r sgôr yn gyfartal unwaith eto.

Rhaid fod y ddau geidwad wedi blino erbyn hyn gan fod gôl yn dilyn gôl. Sgoriwyd ein trydydd gôl gan Gwyn Bere, o'r Barri ac Ysgol Rhydfelen, ac atebwyd honno gan gôl Wyn Davies i'r Felinfach.

Tair gôl yr un a rhyw ddeg munud i fynd. Roedd hogia Felinfach ar i fyny a choesau Deinamo'n ei gario i bob cornel o'r cae. Ond gêm y Cymric oedd hi i fod ac am unwaith defnyddiodd Geraint Huws ei ben pan beniodd y bêl yn gywir heibio Bom ac ychydig funudau cyn y diwedd sgoriodd Aled Roberts, Radyr ac Ysgol Rhydfelen, ein pumed gôl.

Buddugoliaeth felly i dîm y Brifddinas ond does fawr o ots am hynny. Crewyd cyfeillgarwch a chwalwyd ofnau hogia' Cymric ac yn wir gwahoddwyd tîm y Felinfach i lawr i Gaerdydd ar y 30ain o Awst. Rydym ar hyn o bryd yn chwilio am gae rhywle yn y dociau fel na fydd raid i neb gerdded ymhell iawn.



*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd. Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf, 134 Ffordd Parc Ninian, Caerdydd; ffôn: 28917.*
*Hysbysebu gan Gyhoeddiadau ap Dafydd Cyf, 55 Heol Eglwys Gadeiriol Isa, Caerdydd; ffôn: 396262.*